**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 4 Hydref 2011 ym Mharlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Trevor Roberts, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Louise Hughes (ar ran Cyngor Cymuned Arthog), Mr K. J. Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Mor Abermaw a Bae Ceredigion)

Sylwebydd: Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Roy Owen (Arweinydd Portffolio Morwrol a Pharciau Gwledig), Ioan Thomas (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Y Cyng. Aeron Williams a Peter Bunce (Cyngor Tref Abermaw), Y Cyng. Eric Wilding (Cyngor Cymuned Arthog).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Trevor Roberts yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2011/12.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr K. John Probert yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2011/12.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Trevor Roberts ei fod yn aelod am oes o'r Clwb Hwylio ac ni fu iddo gymryd rhan mewn trafodaeth yn gysylltiol â'r Clwb.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2011.

**Adroddwyd:** Gan y Cadeirydd y byddai cofnodion y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr yn cael eu cyflwyno o hyn ymlaen i Fwrdd y Cyngor. Eglurwyd y byddai newidiadau i lywodraethu Cyngor Gwynedd yn dod i rym fis Mai 2012 pryd y byddir yn newid o drefniadau Bwrdd i drefniadau Cabinet ac yn sgil hyn felly fe fyddir yn cyflwyno cofnodion y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr er ystyriaeth y Cabinet.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr Barry Davies, ar ffurf wahanol i'r arfer gan nodi pwyntiau bwledi yn unig oherwydd toriadau cyllidebol yn yr Adran, cynnydd sylweddol yn y gofynion gwaith a diffyg capasiti i gynnal y gwasanaeth i'r un safon.

Adroddwyd ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

**(i) Cymhorthion Mordwyo**

Y gwelwyd adeg sefydlog o ran y cymhorthion mordwyo yn Abermaw a disgwylir archwiliad ohonynt gan Dŷ'r Drindod yn weddol fuan. Derbyniwyd caniatâd i sefydlu bwi Port y Clwyd yn barhaol a fyddai'n ymddangos ar y siartiau.

Yng nghyswllt cymhorthydd y Clwyd, bwriedir gosod cymhorthydd mordwyo 'cardinal deheuol' ar yr ochr ogleddol o'r sianel sydd yn y man yn cael ei farcio gyda bwiau melyn. Roedd oedi wedi digwydd mewn ei osod oherwydd bod y pris a dderbyniwyd yn uchel yn y swm o £3,000. Disgwylir am ddau bris cystadleuol ychwanegol gan obeithio gosod y cymhorthydd erbyn mis Tachwedd 2011.

Bu'n rhaid ymgymryd â chost sylweddol i weddill y cymhorthion sef £1,200 i dynnu'r Clwyd i ffwrdd, costau cynnal a chadw yn £1,100, goleuadau yn £1,000 a chynnal a chadw'r gweddill yn gyfanswm o £1,600. Cydnabyddai'r Swyddog Morwrol mai heriol iawn ydoedd ceisio darganfod yr arian uchod yn wyneb yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn ychwanegol i hyn bu'n rhaid, ar gais y Cyngor Tref, dymchwel y gysgodfa ar gost o £2,300.

Nodwyd y byddir wedi lleihau'r niferoedd o Fwiau Parth Traethau flwyddyn yma gan fod nifer sylweddol wedi eu colli dros gyfnod y ddwy flynedd diwethaf.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ynglŷn â'r uchod ac fe wnaed y sylwadau canlynol:

(a) Pam na fod y bwiau melyn ar eu safle.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol y dylid sicrhau iddynt fynd yn ôl ar eu safle yn ddi-oed ac roedd yn syfrdanu nad oedd y bwiau hyn ar eu safle. Roedd yn hanfodol bod y bwiau yn cael eu harchwilio yn ddyddiol.

(b) o safbwynt Cymhorthydd y Clwyd, nodwyd bod y mater hwn wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ers 2008 gyda nifer o ddyfynbris wedi eu derbyn yn y gorffennol. Gofynnwyd am amserlen benodol o bryd y disgwylir i'r cymhorthydd fynd yn ôl ar safle oherwydd bod nifer o forwyr yn holi.

Mewn ymateb, cydnabyddai'r Swyddog Morwrol bod y mater wedi bod ar y gweill ers peth amser bellach. Fodd bynnag, roedd bwi'r Port yn cynorthwyo morwyr i hwylio mewn ac allan o'r Harbwr. Nid oedd bwi cyffelyb i Gymhorthydd y Clwyd yn 'run o Harbyrau eraill y Cyngor ond fe sicrhawyd y byddai yn ei le erbyn y Nadolig.

(c) Gofynnwyd ymhellach faint oedd cost y bwiau melyn a faint fyddai'r gost i roi Cymhorthydd y Clwyd yn ôl.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol nad oedd cost y bwiau melyn yn sylweddol ac ni oedd cost gosod Cymhorthydd y Clwyd wedi ei ddadansoddi ac fe gyflwynir hyn i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.

(ch) bod y cymhorthydd ar ddiwedd y pwynt mewn cyflwr gwael ac angen ei atgyweirio yn fuan.

Mewn ymateb, adroddwyd nad oedd y cymhorthydd mewn cyflwr gwael ond fod angen cychwyn ar waith cynnal a chadw cyfredinol. Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol ei fod yn ymddangos fel Eitem 3 ar restr o raglen waith yr Harbwr Feistr (a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod).

(d) y derbyniwyd cwynion gan forwyr Ras y Tri Chopa nad oedd cymhorthion mordwyo yn eu safleoedd cywir ac roedd Aelod o'r farn nad oeddynt yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd y dylid rhoi gwybod i'r Harbwr Feistr ar y pryd o unrhyw drafferthion fel bo modd gweithredu yn ddi-oed yn hytrach na chodi materion fisoedd yn ddiweddarach. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol y byddai'n trafod y mater gyda'r swyddogion perthnasol. Nid oedd yr Uned Forworl wedi derbyn unrhyw gwyn ynglyn a lleoliad y cymhorthion mordwyo.

**(ii) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr**

(a) Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol o'r angen i bob unigolyn sydd yn dal trwydded perchnogion a thrwydded cychwyr gydymffurfio â thelerau'r drwydded. Derbyniwyd nifer o lythyrau gan yr Uned Forwrol gan weithredwyr y ddwy ysgraff yn cyhuddo naill a'r llall o beidio cydymffurfio hefo gofynion. Fe fu i Wylwyr y Glannau ymchwilio i'r honiadau drwy ymgymryd ag archwiliadau cudd ond ni welwyd unrhyw gwch yn gweithredu mewn modd a fyddai'n peri pryder ac 'roedd yn ffyddiog eu bod yn gweithredu'n ddiogel. Rhaid bod yn wyliadwrus dros ben wrth wneud honiadau di-sail yn erbyn y naill a'r llall. Yn yr un modd bu i'r Swyddog Morwrol Harbyrau ymchwilio i'r honiadau ar sawl achlysur ac ni welodd yntau unrhyw reswm i bryderu. Ymddangosodd llythyr yn y wasg leol bod un gweithredwr wedi hwylio'r ysgraff ar dywydd garw. Nodwyd bod diogelwch teithwyr o'r pwysigrwydd pennaf a dylai pob Capten fod yn sicr fod cyflwr y tywydd ar y pryd yn ffafriol i'r daith sydd i'w chymryd. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb Capten y cwch a fu wedi ei drwyddedu ydoedd hyn ac ni fedrai'r Uned Forwrol fod ar gael pedair awr ar hugain fel gwasanaeth i gymryd penderfyniad ynglŷn â diffiniad o "dywydd ffafriol". Derbyniwyd llawer o luniau fel tystiolaeth ond yr unig beth a welir yn y lluniau oedd y cwch. Yn ogystal, treuliodd y staff morwrol ddiwrnod cyfan yn archwilio tystiolaeth o'r teledu cylch cyfyng ond ni welwyd tystiolaeth i fedru cyfiawnhau rhoi rhybudd i'r gweithredwr. Bu i un gweithredwr, oddeutu tair wythnos yn ôl, hwylio i fyny'n agos at wal y cei pryd y cymerwyd camau i ysgrifennu at y perchennog yn yr achos hwn.

Pwysleisiwyd na fyddai'r Cyngor yn rhyddhau trwydded i'r gweithredwyr oni bai bod y cychod yn ddiogel i'r pwrpas

(b) Adroddodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos na ellir cyhuddo'r Cyngor o unrhyw gamweithrediad yn deillio o'r uchod a bod gwrthdrawiad o bersonoliaeth rhwng y ddau weithredwr dan sylw. Roedd y mater yn cymryd amser prin y swyddogion i'w geisio datrys ac yn amlwg ni all barhau. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n cynnal cyfarfod gyda'r partïon dan sylw ar fyrder cyn y Nadolig er ceisio datrysiad i roi terfyn ar y mater.

(c) Ychwanegodd Aelod arall a oedd yn Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor pe byddai fath beth yn digwydd o dan reolau'r pwyllgor hwnnw, fe fyddai unrhyw honiad yn gorfod cael ei brofi gan dystiolaeth ac y byddai'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn cael dirwy i fyny at £1,000.

(d) Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Louise Hughes ddarllen cwestiwn a gyflwynwyd iddi er nad oedd y cwestiwn bellach yn ddilys oherwydd ei bod wedi ei brofi bod gweithredwyr yr ysgraff yn cydymffurfio â gofynion y Drwydded. Ychwanegodd yr Aelod ei bod yn bryderus ynglyn â'r sefyllfa ac wedi cael trafodaethau lawer gyda'r Swyddog Morwrol a'r unig fater oedd

yn bwysig iddi ydoedd diogelwch y cyhoedd. Deallir bod y gweithredwyr yn ffraeo yng ngŵydd y cyhoedd ac yn amlwg bod gwrthdrawiad o bersonoliaeth sydd, yn anffodus, yn gwneud niwed i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD: Gofyn i'r Cadeirydd drefnu cyfarfod gyda'r gweithredwyr a'r Aelodau / swyddogion perthnasol cyn y Nadolig er datrysiad o'r mater fel bo'r perchnogion yn ymddwyn yn barchus tuag at ei gilydd i'r dyfodol.**

**(iii) Ystadegau Morwrol**

(a) Tywysodd y Swyddog Morwrol yr Aelodau drwy'r ystadegau a oedd yn nodi cyfanswm cofrestriad cychod pŵer sef 63 yn Abermaw a 10 yng Nghaerddaniel. Gwelwyd gostyngiad o 50% o gychod pŵer yn Abermaw o'i gymharu ag ardaloedd eraill ar hyd arfordir y Sir. Mynegwyd bod yr hinsawdd economaidd yn cael effaith difrifol ar y gweithgareddau hyn yn sgil pris tanwydd, a.y.b.

(b) Gwelwyd yn ogystal ostyngiad o 50% yng nghofrestriadau badau dŵr personol yn harbwr Abermaw a thynnwyd sylw'r Aelodau at ystadegau cychod pŵer a chychod hwylio ynghyd â rhestr aros ac o'r ffigyrau oedd gerbron nodwyd gostyngiad cyffredinol.

(c) Nodwyd bod 94 (67.1%) allan o 140 o angorfeydd wedi eu meddiannu gyda 57 ohonynt yn drigolion o Wynedd a 37 o du allan i Wynedd.

(ch) Er gwybodaeth, nodwyd cymariaethau o ystadegau cychod yng nghyswllt cyfanswm hydoedd, cyfartaledd hyd a chyfanswm dyfnder, gyda chymhariaeth hefyd o ystadegau cychod ymhob Harbwr yn 2011.

(d) Cadarnhawyd rhestr o'r cychod sydd wedi angori yn Harbwr Abermaw gan nodi hyd a dyfnder y cychod, ac os ydynt yn lleol ai peidio.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iv) Cyllidebau Harbwr**

(a) Tywysodd y Swyddog Morwrol yr aelodau drwy gyllidebau'r harbwr gan dynnu sylw aelodau at y sefyllfa ariannol hyd at 31 Awst 2011 ynghyd a chyllideb gwariant yr harbyrau a thargedau incwm am 2011/12. Mynegwyd unwaith yn rhagor eleni y pryder am y targed incwm i harbwr Abermaw gan nodi ar ddiwedd Awst 2011 y gwelwyd y targed oddeutu £14,000 ac oherwydd yr angen i ymgymryd âg ad-daliadau roedd y sefyllfa yn gwaethygu.

(b) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â'r incwm o werthiant asedau'r Harbwr yn Abermaw, esboniodd y Swyddog Morwrol ei fod ar ddeall bod 50% o gyfanswm y gwerthiant yn cael ei gadw'n ganolog gyda'r 50% sy'n weddill yn cael ei gyfeirio i'r Adran Economi a Chymuned. Eglurwyd mai dyna sut y gweithredir gwaredu asedau.

(c) Roedd yr Aelod o'r farn y dylai cyfraniad o'r arian uchod gael ei glustnodi ar gyfer gweithgareddau'r Harbwr. Nid oedd Aelodau yn ymwybodol o faint o arian a gynhyrchwyd yn deillio o werthu'r asedau a hyderir y bydd y wybodaeth ar gael erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'n cyflwyno gwybodaeth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn yn nodi'r asedau gafodd eu gwerthu ynghyd â mantolen ariannol y gwerthiant.

(ch) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod arall ynglyn â dyfodol adeilad SS Dora, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol na fyddai'r adeilad yn cael ei ddatblygu, na bwriad i'w waredu ac edrychir i gael meddiant o'r unedau sydd ddim mewn defnydd ar gyfer defnydd yr Harbwr.

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol gyflwyno gwybodaeth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth 2012 yn deillio o werthiant asedau'r Cyngor yn Abermaw.**

**(v) Digwyddiadau**

(a) Gwerthfawrogai'r Swyddog Morwrol gydweithrediad Pwyllgor y Ras Tri Chopa am yr holl waith a gyflawnwyd i wireddu llwyddiant y ras yn Abermaw a mawr hyderir y bydd yn mynd o nerth i nerth i'r dyfodol. Apeliwyd ar i Aelodau os ydynt yn derbyn sylwadau ynglyn â chymhorthion mordwyo yn ystod cyfnod y Ras i'r dyfodol eu bod yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Harbwr Feistr yn ddi-oed.

(b) Bu i'r penwythnos Regata Ceufadau gael ei ohirio oherwydd tywydd anffafriol i'w gynnal.

(c) Edrychir yn ffafriol i dderbyn Gwobr y Faner Las gan fod ansawdd y dŵr hyd yma wedi cyrraedd y gofynion angenrheidiol. Nodwyd bod un prawf wedi methu ar 11 Awst gyda phrawf arall ar 8 Medi yn cyrraedd safon isafswm a hyderir na fydd y canlyniadau yma yn amharu ar safonau 2012. Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod ganlyniadau'r profion.

(ch) Mynegwyd pryder gan y Swyddog Morwrol bod peiriant JCB wedi cael ei leoli ar y traeth, yn absenoldeb presenoldeb yr Harbwr Feistr, yn ystod darpariaethau'r Motor Cross llynedd. Anfonwyd rhybudd i'r Cwmni i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau i osgoi unrhyw drafferthion i'r dyfodol gan ei bod yn hanfodol gwarchod tyfiant naturiol ar y traeth.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vi) Consesiynau a Gwelliannau**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol bod mynedfa'r storfa forwrol yn creu trafferthion i'r Uned Forwrol ac yn gostus i'r gwasanaeth waredu gwastraff oddi yno a olygai hanner diwrnod o adnoddau staffio. Fe geisir sicrhau bod pob deilydd llecyn yn cael cytundeb gwaredu gwastraff masnachol a bwriedir gosod rhwystr ar y fynedfa.

(b) Cadarnhawyd y byddir yn buddsoddi yn ysgolion yr Harbwr gyda'r gobaith o gwblhau'r gwaith hwn yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn dros fisoedd y gaeaf.

(c) Parheir gyda'r gwaith yng nghyswllt datblygiadau gyda'r pontŵn a rhagwelir ei leoli rhwng y llithrfa a chongl wal yr Harbwr.

(ch) Nodwyd y gwerthwyd unedau yn ardal Harbwr Aberamffra ond bod y tir a'r cei yn cael ei gadw ym meddiant y Cyngor. Sicrhawyd na fyddai gan berchnogion yr unedau hawl i barcio ar y tir dim ond ar gyfer llwytho a dadlwytho nwyddau.

(d) Pryderai'r Swyddog Morwrol am ansawdd wyneb y waliau yn ardal Ystorfa Disel ac y byddai'n ofynnol buddsoddi i'w hatgyweirio.

(dd) Derbyniwyd nifer o geisiadau am gonsesiynau traeth a phromenâd gan fusnesau lleol. Fodd bynnag, profwyd trafferthion gydag unigolion a oedd yn cymryd mantais o'r sefyllfa drwy

sefydlu busnes ar y promenâd o dan drefn Trwydded "Pedler" Gwnaed ymholiadau gyda'r Heddlu yn hyn o beth a deallir, er i'r deilydd gadarnhau bod yr Heddlu wedi caniatáu, nad oeddynt wedi rhyddhau trwydded. Fe fydd yn rhaid cymryd camau pendant a chadarnhaol flwyddyn nesaf er mwyn gwarchod buddiannau unigolion a busnesau lleol.

(e) Ategodd y Cadeirydd bod yr unigolyn yn parhau i weithredu ar benwythnosau a bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu.

(f) Nododd Aelod arall y dylai'r Cyngor fel yr awdurdod trwyddedu , mewn ymgynghoriad â'r Heddlu, fod yn ymwybodol o'r sefyllfa, fel bo modd cymryd camau priodol i rwystro unrhyw gamddefnydd o'r drwydded.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vii) Diogelwch Offer Morol**

Cyfeiriwyd at ffurflen gofrestru gwarchod morol a oedd ynghlwm i'r Rhaglen i'w gweithredu mewn cydweithrediad â'r Heddlu sy'n awyddus i ail-weithredu'r cynllun gyda'r awdurdod. Bwriedir gohebu gyda phob un o gwsmeriaid yr Harbwr gan eu hannog i gofrestru eu heiddo a hyderir y gellir derbyn eu cefnogaeth i fod yn rhan o'r cynllun yn 2012. Ceir llawer o droseddau yn ymwneud â chyfarpar morwrol.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(viii) Staff Harbwr**

Ymhelaethwyd ar drefniadau staffio'r Harbwr yn ystod Gaeaf 2011/12 sef bod contract y Cymhorthydd Harbwr wedi dirwyn i ben ddiwedd mis Medi ac y byddai Harbwr Feistr Abermaw yn cynorthwyo yn Harbwr Aberdyfi am un diwrnod o'r wythnos. Yn anffodus, nid yw cyllidebau yn caniatau i gyflogi dau aelod o staff yn Abermaw dros gyfnod y gaeaf.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r uchod.**

**7. <u>MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL</u>**

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

(1) **Angorfeydd Pontŵn Hafan – Gaeaf 2011/12**

(a) Darllenwyd llythyr gan Aelod sy'n cynrychioli Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw a anfonwyd gan y Swyddog Morwrol at berchnogion cychod yn cynnig cyfle i ddalwyr angorfa (nad ydyw yn y marina) angori eu llestr yn Hafan Pwllheli (y marina) am ffi ostyngedig. Roedd y cynnig hwn ar gael ar sail y cyntaf i'r felin i ddalwyr angorfa flynyddol sydd wedi talu eu ffi yn llawn yn Harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Fe fyddai'r cyfnod yn ymestyn o 1 Hydref 2011 hyd 31 Mawrth 2012 am £72 y mis, yn cynnwys TAW a thrydan (yn ddarostyngedig ei fod ar gael).

Mynegodd yr Aelod, tra nad oedd ganddi unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig, teimlai ei fod yn annheg tynnu cwsmeriaid o ardal Abermaw ac y byddai'n cael effaith andwyol ar fusnesau lleol yn cynnwys siopau, tafarndai, a.y.b.

(b) Yn yr un modd ategodd Aelod arall y byddai'n cael effaith ar incwm Harbwr Abermaw yn ogystal â'r Clwb Hwylio. Gwnaed sylw pellach tra ei fod yn gynnig rhagorol 'roedd wedi ei gyflwyno braidd yn hwyr yn y flwyddyn gan y byddai polisïau yswiriant rhai perchnogion cychod yn dirwyn i ben oddeutu mis Tachwedd.

(c) Diolchodd y Swyddog Morwrol am y sylwadau gan egluro ei fod fel swyddog yn gorfod edrych ar y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd a dyletswydd arno i geisio'r gorau i'r Harbyrau. Gobeithiai drwy'r cynnig hwn y byddai'n gyfle i ymestyn y tymor hwylio ym Mhwllheli gan ychwanegu bod mordwyo i'r Harbwr ym Mhwllheli yn eithaf hwylus. Mewn ymateb i'r sylw a wnaed ynglyn â cholli incwm i'r Clwb Hwylio, nid oedd hyn yn fwriad o gwbl i danseilio gweithgareddau'r Clwb a byddai'n ddiddorol gweld flwyddyn nesaf os bu unrhyw golled i'r Clwb. Fe fyddir yn cyflwyno ystadegau i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar faint o gychod fydd wedi cymryd mantais o'r cynnig hwn.

(ch) Mynegwyd gan Aelod arall bod Pwllheli wedi cael cyhoeddusrwydd negyddol yn ddiweddar a ymddangosodd mewn cylchgrawn hwylio cenedlaethol yn deillio o'r broblem siltio. Pan fo morwyr yn gweld yn y cylchgronau nad yw'n bosib cael mynediad bedair awr ar hugain i Harbwr Pwllheli, maent o ganlyniad yn tueddu i beidio ag ymweld â Bae Ceredigion. Roedd yr aelod o'r farn bod hyn yn ei dro yn cael effaith ar Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw. Teimlwyd nad oedd y swyddogion yn deall oherwydd nad oeddynt yn forwyr profiadol a proffesiynol.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol tra'n derbyn bod Pwllheli wedi derbyn sylwadau negyddol yn ddiweddar, nid oedd o'r farn bod hyn yn rhwystro cychod i hwylio i Aberdyfi ac Abermaw ac mai'r prif reswm am ddiffyg cychod yn ymweld ydoedd hinsawdd yr economi. Gwnaethpwyd £700,000 o elw net yn deillio o weithgareddau Harbwr Pwllheli a rhaid cofio bod pob un o'r Harbyrau eraill yn elwa o'r incwm hwn. Roedd yn anodd iddo dderbyn bod Pwllheli yn cael effaith negyddol ar yr Harbyrau eraill heb dystiolaeth gadarn i gefnogi hyn. Fe fyddai ymgyrch garthu yn digwydd gaeaf nesaf i geisio datrys y broblem a defnyddiwyd lefelwr yn ystod yr haf pryd y gwelwyd gwelliant.

Annheg iawn ydoedd tanseilio ansawdd a phroffesiynoldeb y swyddogion gan bod morwyr proffesiynol a phrofiadol yn gweithio i'r gwasanaeth.

**(2) Ffendrau yr ysgolion**

Adroddwyd bod Aelodau yn bryderus ers sawl blwyddyn am y ffendrau ar yr ysgolion sydd angen eu newid yn ddi-oed.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddai'n cael ei ychwanegu at restr waith yr Harbwr Feistr ac y byddir yn mynd ati i'w cwblhau yn ystod tymor y gaeaf.

Ychwanegodd y Cadeirydd y gellid codi materion dydd i ddydd sydd yn pryderu'r Aelodau gyda'r Harbwr Feistr yn hytrach na disgwyl a'i godi yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

**(3) Pontwnau**

Adroddodd y Cadeirydd bod cyfarfod i drafod yr uchod i'w gynnal ddydd Mercher, 12 Hydref 2011 a bod cynllun a chynnig i'w weld yn Swyddfa'r Harbwr Feistr.

**(4) Mynediad at ddŵr ffres**

Diolchwyd i'r Uned Forwrol am y cyflenwad trydan ar y cei a gofynnwyd ymhellach a fyddai modd derbyn cyflenwad dŵr o'r tap ger adeilad yr SS Dora gan ei fod wedi ei droi ffwrdd yn aml. Roedd angen mwy o dapiau ar y cei gan fod cwsmeriaid yn eu defnyddio ar gyfer eu gwahanol anghenion.

Roedd y Swyddog Morwrol yn siomedig iawn fod cais pellach wedi ei gyflwyno am ddŵr ffres a hyn yn dilyn buddsoddiad sylweddol er gwella cyflenwad yn 2011. Roedd o'r farn na fyddai modd ychwanegu at y niferoedd tapiau dwr a oedd ar y cei.

**(5) Hysbysebu'r Harbyrau**

Teimlai Aelodau yn gryf y dylai'r Harbyrau bychain megis Aberdyfi ac Abermaw gael mwy o gyhoeddusrwydd drwy eu hysbysebu yn y mannau priodol. Roedd deunydd wedi ei baratoi ar ffurf posteri, taflenni yng nghyswllt Harbwr Aberdyfi a oedd yn cael eu lleoli yn yr Harbyrau eraill ond yn anffodus nid oedd y Cyngor yn hysbysebu'r harbyrau i ddenu cwsmeriaid.

**Penderfynwyd (a) Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag atebion y swyddogion i'r rhain.**

**(b) Cyfleu i'r Pennaeth Economi a Chymuned ddymuniad y Pwyllgor Ymgynghorol i'r gwasanaeth hysbysebu gweithgareddau'r Harbyrau mewn mannau a chylchgronau priodol i ddenu fwy o gwsmeriaid i'r dyfodol.**

8. **<u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 27 Mawrth 2012.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod**

**<u>CADEIRYDD</u>**